Ymateb i Argymhellion i Adroddiad Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Darparu Gwerslyfrau ac Adnoddau Dysgu i Ddisgyblion

Argymhelliad	**Ymateb**	**Esboniad**	**Goblygiadau ariannol**
Argymhelliad 1. Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi manylion i egluro pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ar gael i bob disgybl, waeth pa ddull dysgu y mae'n well ganddynt ei ddefnyddio.	Derbyn	Arweiniodd y broses o gyflwyno cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd yng Nghymru rhwng 2015 a 2017 at bryderon yn y sector addysg ynghylch darparu adnoddau addysgu a dysgu priodol ac amserol, yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, trefnais *'Uwchgynhadledd Adnoddau Cymraeg a Dwyieithog*' ym mis Ebrill 2017 a daeth amrywiaeth o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector iddi, y mae gan bob un ohonynt ran i'w chwarae i sicrhau adnoddau addysg dwyieithog, amserol ac o ansawdd uchel. Tynnodd yr uwchgynhadledd hon sylw at bwysigrwydd strategol canolbwyntio ar gynhyrchu adnoddau dwyieithog a chynllunio ar gyfer gwneud hynny yn gynnar yn ystod unrhyw raglen ddiwygio. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y bydd y dull gweithredu hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru. Ers yr uwchgynhadledd, sefydlodd fy swyddogion Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog gan gynnwys cynrychiolwyr o BBC Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CYDAG, Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cymwysterau Cymru, Consortia Rhanbarthol, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru a CBAC, i ystyried syniadau ar gyfer dull strategol newydd o sicrhau'r	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

		adnoddau addysg sydd eu hangen ar Gymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y dull gweithredu newydd hwn i Gymru gyfan yn canolbwyntio ar sicrhau adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog o ansawdd uchel pan fo'u hangen. Bydd y strategaeth yn nodi pa gyfraniadau a ddisgwylir gan yr amrywiol sefydliadau y mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae.	
Argymhelliad 2. Dylai Cymwysterau Cymru gyhoeddi rhestr o adnoddau craidd sydd eu hangen ar gyfer pob pwnc, ac sydd yn rhaid iddynt fod ar gael cyn dechrau'r cyrsiau perthnasol. Rhaid i'r adnoddau hyn gynnwys gwerslyfrau printiedig ac adnoddau printiedig i athrawon fel cam cyntaf, yn ogystal ag adnoddau ar-lein ac adnoddau eraill.		Argymhelliad i Cymwysterau Cymru yw'r argymhelliad hwn. Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau ei fod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael cyn cyflwyno cymwysterau newydd i'w haddysgu am y tro cyntaf ac mae'n ystyried yn ehangach pa adnoddau sy'n ddefnyddiol i athrawon a myfyrwyr. Bydd yn ystyried goblygiadau'r gwaith hwn wrth bennu ei ddull gweithredu mewn perthynas â diwygiadau i gymwysterau yn y dyfodol. Er y gall manylebau a dulliau asesu newid, bydd y rhan fwyaf o'r cynnwys pwnc yn aml yn aros yr un fath. Mae Cymwysterau Cymru o'r farn, wrth benderfynu p'un a ddylid dynodi bod yn rhaid cyflwyno adnoddau craidd ychwanegol i gefnogi cymhwyster newydd (y tu hwnt i'r manylebau a'r asesiadau enghreifftiol), y byddai angen iddo ystyried pa adnoddau sydd ar gael ar gyfer y pwnc cyfan, yn hytrach na dim ond yr adnoddau hynny sy'n canolbwyntio ar gymhwyster unigol. Dyma un rheswm pam na fydd bob amser yn angenrheidiol, nac yn briodol, cyflwyno gwerslyfr (newydd) wedi'i argraffu sy'n ymdrin â'r cynnwys cyfan ar gyfer y cymhwyster i gefnogi manyleb newydd. Caiff Cymwysterau Cymru ei gynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog, a bydd yn defnyddio'r grŵp hwn, yn ogystal ag unrhyw ofynion a gyflwynir i'r corff dyfarnu, i gyfleu'r gofynion o ran adnoddau craidd.	Dim.

Argymhelliad 3. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet wneud cymhariaeth â rhannau eraill o'r DU i ganfod a oes problemau tebyg wrth ddarparu adnoddau addysgol, a ph'un a ganfu atebion y gellid eu defnyddio yng Nghymru	Derbyn	Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod o fudd cymharu'r ffordd y caiff adnoddau addysgol eu darparu mewn gwledydd eraill ac i'r perwyl hwn, rwyf eisoes wedi comisiynu'r Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog i ystyried y dulliau gweithredu sydd ar waith mewn gwledydd eraill. Mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar wledydd sy'n darparu addysg ddwyieithog, gan gynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â gwledydd eraill yn yr UE a thu hwnt, sydd â nodweddion ieithyddol tebyg i Gymru, megis Gwlad y Basg. Caiff y canfyddiadau eu hystyried gan y Grŵp Rhanddeiliaid Addysgol Dwyieithog wrth ddatblygu ei gynnig ar gyfer y ffordd ymlaen i Gymru.	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.
Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ganfod i ba raddau y mae athrawon yn cyfieithu adnoddau eu hunain, a beth yw'r adnoddau hynny. Yna dylid gwneud trefniadau i gyfieithu'r adnoddau hynny yn ganolog, a'u darparu i athrawon a disgyblion fel y bo'n briodol	Gwrthod	Ar hyn o bryd, mae tri llwybr ar gyfer creu adnoddau yng Nghymru: Yn gyntaf, caiff adnoddau gwreiddiol eu creu neu eu comisiynu'n ganolog gan sefydliadau megis CBAC, Llywodraeth Cymru a'r BBC. Caiff yr adnoddau hyn naill ai eu darparu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig er mwyn llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth. Yn ail, mae adnoddau a gaiff eu cynhyrchu'n fasnachol ar gael gan gyhoeddwyr addysgol arbenigol. Cânt eu datblygu'n uniaith Saesneg yn bennaf, e.e. gwerslyfrau ar gyfer cymwysterau. Caiff y gwerslyfrau hyn eu llywio gan y farchnad. Gan fod y farchnad ar gyfer gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant i CBAC er mwyn sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael. Rwyf wedi datgan yn flaenorol nad yw'r dull darparu hwn yn dderbyniol a dyna pam fy mod wedi gofyn i'r	Dim.

		Grŵp Rhanddeiliaid Addysgol Dwyieithog edrych ar fodel i Gymru a fydd yn sicrhau darpariaeth ddwyieithog yn hytrach na dibynnu ar gyfieithiadau. Yn olaf, mae athrawon yn creu ac yn addasu adnoddau i'w defnyddio ac yn cyfieithu adnoddau sydd ar gael yn fasnachol yn Saesneg. Yn aml, ni ellir rhannu'r adnoddau hyn ar lefel genedlaethol am resymau hawlfraint yn ogystal â'r angen i sicrhau ansawdd y cynnwys a'r derminoleg. Er mwyn cyfieithu adnoddau a ddatblygwyd yn fasnachol, mae angen cytundeb y cyhoeddwr a chymeradwyaeth o ran Hawliau Eiddo Deallusol. Mae'r adnoddau a ddefnyddir gan athro yn dibynnu ar farn ac anghenion yr athro hwnnw a byddant wedi'u teilwra'n arbennig at anghenion y disgyblion a'r wers. Awgrymodd adolygiad diweddar gan CBAC o'r ffordd y caiff adnoddau eu defnyddio mewn ysgolion uwchradd fod bron i 90% o athrawon yn darparu adnoddau roeddent wedi'u datblygu eu hunain. O dan y cwricwlwm newydd, cytunwyd eisoes y caiff model newydd ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod adnoddau addysgol ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Bydd hyn yn cynnwys nodi adnoddau i fodloni'r gofynion ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol a gwneud trefniadau ar gyfer darparu'r adnoddau hynny. Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog yn cyflwyno argymhellion i mi ar y ffordd ymlaen ar gyfer cyflwyno adnoddau dwyieithog a byddaf yn diweddaru'r pwyllgor ar ddatblygiadau yn y gwanwyn.	
Argymhelliad 5. Dylid ymestyn swyddogaethau CBAC i gynnwys cyfrifoldeb dros		Nid yw'r argymhelliad hwn o fewn fy nghylch gwaith.	Dim.

gyfieithu a hyrwyddo adnoddau dysgu sy'n rhan o gronfa sylfaenol o adnoddau y dylent fod ar gael, neu'r rhai a ddefnyddir yn eang ar draws ysgolion		Mae WJEC CBAC Cyf yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen annibynnol gofrestredig. Pennir ei swyddogaethau gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Tîm Rheoli Strategol. Fel un o'r rhanddeiliaid allweddol ar y Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog, bydd CBAC yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o adnabod anghenion am adnoddau ar gyfer y dyfodol a bydd yn defnyddio'r grŵp hwn i gynnig atebion ar ffyrdd o ddarparu yn y dyfodol. Bydd hefyd yn parhau'n ddarparwr allweddol o ran yr adnoddau a nodir, boed yn adnoddau craidd neu'n adnoddau atodol. Cyfrifoldeb Bwrdd CBAC fyddai penderfynu p'un a yw mewn sefyllfa i ehangu ei gyfrifoldebau a beth fydd y cyfrifoldebau hynny o fewn y model a gyflwynir ar gyfer darparu adnoddau yn y dyfodol.	
Argymhelliad 6. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a CBAC sicrhau bod adnoddau dwyieithog yn cael eu datblygu'n naturiol wrth i'r adnodd gael ei greu, ac y dylai hyn fod yn rhan o unrhyw gontract a ddyfernir ar gyfer cynhyrchu adnoddau lle defnyddir cyhoeddwr masnachol	Derbyn	Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylai adnoddau sy'n cael eu comisiynu drwy broses dendro gan CBAC a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gael eu datblygu'n ddwyieithog. Mae'r adnoddau digidol a gynhyrchir gan CBAC ar gael yn ddwyieithog a bydd CBAC yn parhau i gynnig y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, ni all CBAC a Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff gwerslyfrau a gynhyrchir gan gyhoeddwyr fel mentrau masnachol, heb unrhyw gymorth ariannol gan CBAC a Llywodraeth Cymru, eu datblygu'n naturiol yn ddwyieithog. O dan ddogfen y Cyd-bwyllgor Cymwysterau *Code of Practice: Awarding Body/Publisher Relationships*, gall CBAC weithio gyda chyhoeddwyr i ddatblygu deunydd sy'n diwallu anghenion cymwysterau'r cyrff dyfarnu. Ar hyn o bryd caiff gwerslyfrau sy'n	Anhysbys – Bydd goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried wrth i dull gweithredu ar gyfer y dyfodol gael ei ddatblygu.

		cael eu cynhyrchu'n fasnachol, lle yr ystyrir eu bod o ansawdd priodol, eu hardystio gan CBAC ac nad oes unrhyw gontract cyfreithiol rhyngddynt a'r cyhoeddwr. Nid oes unrhyw rwymedigaeth gytundebol ar y cyhoeddwr i ddatblygu'r gwerslyfrau hyn yn ddwyieithog. Bydd y dull strategol newydd a ddatblygir gan y Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog yn sicrhau y caiff adnoddau eu creu yn Gymraeg ac yn Saesneg.	
Argymhelliad 7. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ailystyried y penderfyniad i ohirio cyhoeddi adnoddau Saesneg am hyd at wyth wythnos a sicrhau bod adnoddau yn Gymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.	Gwrthod	Deallaf na fu unrhyw benderfyniad i ohirio dyddiadau cyhoeddi adnoddau Saesneg. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng CBAC a'r cyhoeddwyr masnachol yn Lloegr sy'n ymwneud â chynhyrchu gwerslyfrau i gefnogi manylebau CBAC ar hyn o bryd. Nod y trafodaethau hyn yw ystyried sut y gellir cyflymu'r broses o greu fersiynau Cymraeg o werslyfrau. O ganlyniad, mae CBAC a'r cyhoeddwyr wedi cytuno i dreialu dull 'deuol' lle y caiff llyfrau a gaiff eu hysgrifennu yn Saesneg eu cyfieithu i'r Gymraeg ar yr un pryd. Mewn egwyddor, bydd hyn yn golygu y gellir cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o werslyfrau naill ai ar yr un pryd neu o fewn wyth wythnos i'w gilydd. Os bydd y dull yn llwyddiannus, bydd yn lleihau'r terfynau amser yn sylweddol. Lle ceir manyleb newydd (a chan ganiatáu cyfnod digonol rhwng cyflwyno cymhwyster newydd ac addysgu'r cymhwyster hwnnw am y tro cyntaf), byddai hyn yn golygu y gallai'r fersiynau Saesneg a Chymraeg fod yn barod i'w haddysgu ar yr un pryd.	None.
Argymhelliad 8. Os yw'r treial yn mynd yn ei flaen, dylai Ysgrifennydd y	Derbyn	Mae detholiad bach o lyfrau adolygu yn cael eu treialu ar hyn o bryd er mwyn gweld a ystyrir bod y dull 'deuol' hwn yn llwyddiannus ac y gellid ei ystyried yn broses safonol o gyfieithu	None.

Cabinet roi manylion am sut y bydd llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y treial yn cael ei asesu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar ddisgyblion os bydd y fersiwn Saesneg yn cael ei gohirio		gwerslyfrau yn y dyfodol o dan y trefniant cynllun grantiau presennol. Caiff risgiau a llwyddiannau'r treial eu monitro gan dîm adnoddau CBAC a chan fy swyddogion fel rhan o'r prosesau a'r gweithdrefnau arferol ar gyfer rheoli grantiau. Rwy'n fodlon diweddaru'r pwyllgor am ddatblygiadau'r broses hon. Rwyf wedi cael sicrwydd na fydd unrhyw oedi i'r fersiwn Saesneg ac na fydd dysgwyr cyfrwng Saesneg o dan unrhyw anfantais.	
Argymhelliad 9. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau Cymraeg yn cael ei gysylltu â chyflwyno dwyieithog fel rhan o unrhyw gontract.	Derbyn	Fel y nodais eisoes, yn y dyfodol caiff adnoddau eu comisiynu yn y ddwy iaith a byddant ar gael ar yr un pryd er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd. Caiff seilwaith newydd ar gyfer darparu adnoddau dwyieithog ei ystyried gan y Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog a fydd hefyd yn ystyried y modelau ariannu priodol.	Anhysbys. Bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau cyllidol unwaith y byddwn yn penderfynu ar y ffordd ymlaen yn 2019.
Argymhelliad 10. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ei gwneud yn ofynnol bod gwerslyfrau ac adnoddau i athrawon yn rhan o'r gronfa sylfaenol o adnoddau i ddysgwyr	Gwrthod	Cyfeiriaf at yr ymateb a roddais ar gyfer argymhelliad 2	Dim.
Argymhelliad 11. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi cynlluniau ar waith i sicrhau bod gwerslyfrau sy'n canolbwyntio ar gwricwlwm y dyfodol yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio fel y dull o addysgu, yn hytrach	Derbyn	Fel rhan o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol, mae'n bwysig ystyried rôl gwerslyfrau, yn ogystal ag adnoddau eraill, wrth addysgu a dysgu. Mae'n werth nodi mai tuedd gymharol ddiweddar yw'r duedd o gyhoeddi gwerslyfrau penodol ar gyfer manylebau cymwysterau a byrddau arholi penodol a'i bod a wnelo llawn cymaint â marchnata a gwerthiannau i gyhoeddwyr ag y mae a wnelo ag	Anhysbys. Bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau cyllidol unwaith y byddwn yn penderfynu ar y ffordd ymlaen yn 2019.

na'r model presennol o werslyfrau sy'n canolbwyntio ar gymwysterau		addysg. Lle y caiff manylebau newydd, pynciau newydd neu arddulliau newydd ar gyfer cwestiynau arholiad eu cyflwyno, nid darparu gwerslyfr cyfan newydd o reidrwydd yw'r dull mwyaf priodol na chost effeithiol o addasu i'r newid hwn. Mae'r model hwn yn dueddol o arwain at ddiwylliant o 'addysg yn unol â'r prawf' yn hytrach na darparu addysg eang sy'n fwy addas ar gyfer buddiannau hirdymor myfyrwyr, pryder a godwyd hefyd gan Estyn yn ei hadroddiad blynyddol yn 2016-2017[1]. Mae'r cwricwlwm a chymwysterau yn ddau endid ar wahân gyda'r dysgu yn seiliedig ar y cwricwlwm, a'r cymwysterau yn anelu at fesur cyrhaeddiad yn erbyn gwybodaeth am y cwricwlwm hwnnw. Os caiff gwerslyfrau ac adnoddau addysgu a dysgu eraill eu hystyried fel adnoddau'r cwricwlwm yn hytrach nag adnoddau ar gyfer cymwysterau, bydd hyn yn helpu i symud o'r ffocws ar y cymhwyster ac yn cynnig mwy o ffocws ar y cwricwlwm.	
Argymhelliad 12. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gomisiynu ymchwil i sefydlu faint o ddisgyblion y mae diffyg band eang yn effeithio arnynt, ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at adnoddau addysgol digidol yn rhwydd	Derbyn mewn egwyddor	Mae buddsoddiad Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol mewn band eang i ysgolion yn golygu bod gan y mwyafrif helaeth o ysgolion gysylltiadau band eang gwell. Yn gyffredinol, yr ysgolion sy'n weddill yw'r ysgolion a ystyrir yn rhai anodd eu cyrraedd. Ond mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau y bydd y broses wedi'i chwblhau ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion sy'n weddill erbyn diwedd y flwyddyn. Mae swyddogion wedi gweithredu tair ffrwd waith newydd a fydd yn sicrhau, pan fyddant wedi'u cwblhau, bod gan bob ysgol gymwys yng Nghymru fynediad at gyflymderau band eang digystadleuaeth sy'n bodloni disgwyliadau band eang cyflym iawn neu'n rhagori ar y disgwyliadau hynny. Mae'r terfynau amser ar	Dim.

[1] https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/files/documents/Estyn%20Annual%20Report_Welsh_Accessible.pdf

		gyfer cwblhau'r gweithgaredd hwn yn dibynnu ar raglen Newid Rhwydwaith Craidd Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus ac mae terfynau amser manwl wrthi'n cael eu datblygu gyda'r bwriad y caiff y rhan fwyaf o'r gwaith ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2019. Rwy'n fodlon diweddaru'r pwyllgor ar y datblygiadau yn y maes gwaith hwn. Mae data ar gael ar fynediad i'r rhyngrwyd ac rwyf wedi gofyn i arweinwyr polisi fy hysbysu'n rheolaidd am ddefnydd disgyblion o'r rhyngrwyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl o dan anfantais.	
Argymhelliad 13. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd a datblygu'r adnoddau cysylltiedig sydd eu hangen	Derbyn	Mae'n bwysig egluro nad yw Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am y cwricwlwm na'r adnoddau y dylid eu datblygu i gefnogi ei roi ar waith. Fodd bynnag, wrth i waith fynd rhagddo ar y cwricwlwm newydd i Gymru, mae Cymwysterau Cymru eisoes yn cydweithio'n agos ag Ysgolion Arloesi i ystyried ei effaith bosibl ar gymwysterau yn y dyfodol. Bydd unrhyw gymwysterau newydd a gyflwynir ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mewn digon o amser i ysgolion gynllunio, ac i adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog gael eu datblygu i'w cefnogi. Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog yn ystyried seilwaith ar gyfer darparu adnoddau dwyieithog i ddiwallu anghenion y cwricwlwm diwygiedig a'i gymwysterau, ac mae Cymwysterau Cymru wedi'i gynrychioli ar y grŵp hwnnw.	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Argymhelliad 14. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod amser cyflwyno o 18-24 mis ar gael ar gyfer cynhyrchu unrhyw adnoddau newydd sy'n ofynnol o ganlyniad i'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm sydd ar y gweill	Derbyn mewn egwyddor	Cytunaf fod angen digon o amser i gynhyrchu adnoddau er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm a'r cymwysterau. Yn dilyn rhaglen sylweddol o ddiwygio cymwysterau ac ar ôl cyflwyno'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd rhwng 2015 a 2017, cynhaliodd Cymwysterau Cymru ymarfer 'gwersi a ddysgwyd'[2] a brofwyd gydag ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, un o ganfyddiadau allweddol yr ymarfer oedd yr angen i sicrhau digon o amser i athrawon baratoi'n ddigonol ar gyfer cyflwyno cymwysterau newydd. Daeth i'r casgliad y dylai adnoddau craidd fod ar gael o leiaf 12 mis cyn dyddiad dechrau disgwyliedig y cyrsiau. Mae Cymwysterau Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod TGAU a Safon Uwch cymeradwy ar gael o leiaf flwyddyn cyn dechrau addysgu'r cymwysterau hynny am y tro cyntaf er mwyn gallu darparu hyfforddiant ac er mwyn i athrawon allu paratoi. Gyda'i ddull strategol i Gymru gyfan o reoli adnoddau ar gyfer y dyfodol, bydd aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog yn gallu cydweithio er mwyn sicrhau y caiff adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog ychwanegol priodol eu datblygu mewn modd amserol. Ar ôl i mi ystyried argymhellion y Grŵp, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y gweithdrefnau a gaiff eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau digon o amser paratoi.	Dim.
Argymhelliad 15. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod unrhyw	Derbyn	Gan fod y cwricwlwm newydd yn cael ei gynllunio ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 16 oed, mae Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio ar y newidiadau y gall fod eu hangen ar gyfer	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn

[2]. Mae Cymwysterau Cymru ar fin cyhoeddi'r adroddiad hwn.

newidiadau mawr i'r polisi arholi yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy graddol yn y dyfodol. Yn arbennig, dylid osgoi newid y cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn yr un flwyddyn ar gyfer pynciau unigol		cymwysterau Cyfnod Allweddol 4. Nid yw wedi ystyried pa newidiadau y gall fod eu hangen ar gyfer cymwysterau ôl-16 eto, gan gynnwys cymwysterau UG a Safon Uwch. Os bydd newidiadau i'r cymwysterau a gaiff eu sefyll gan fyfyrwyr rhwng 14 ac 16 oed yn arwain at newidiadau i gymwysterau ôl-16, ni fydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn ystod yr un flwyddyn, oni fydd rhesymau clir a chefnogaeth o blaid gwneud hynny. Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried goblygiadau diwygiadau yn y dyfodol o ran llwyth gwaith a rheoli newid er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir o ran cyflwyno newidiadau i gymwysterau yn hyddysg - gan gyflwyno trefniadau i gyflwyno'r cymhwyster TGAU a'r cymhwyster Safon Uwch yn yr un pwnc ar wahanol adegau lle y bo hyn yn briodol.	dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Kirsty Williams, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg